

Hawdd ei Ddeall

Sut yr ydym yn arolygu gwasanaethau ar gyfer pobl



Ysgrifennwyd y daflen hon gan **Arolygiaeth Gofal Cymru**.

Gorffennaf 2022

Yr arolygydd a beth y mae'n ei wneud



Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am wirio gwasanaethau gofal yng Nghymru.



Bydd **arolygydd** o **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn gwirio dy gartref o leiaf bob 18 mis, ond efallai y byddwn hefyd yn ymweld bob hyn a hyn os oes angen gwelliannau.



Arolygydd yw rhywun sy'n gwirio rhywbeth.



Bydd yr **arolygydd** sy'n ymweld â'th gartref ti yn cyflwyno ei hunan i ti. Bydd yn dweud wrthyf ei enw.




Mae'r **arolygydd** yno i wneud yn siŵr dy fod **ti** yn ddiogel ac yn hapus lle'r wyt ti'n byw.



Hefyd, bod y bobl sy'n gofalu amdanat ti yn gwneud gwaith da.



Bydd yr arolygydd yn dangos ei **gerdyn** **adnabod** i ti.



Pwrpas y daflen hon yw rhoi gwybod i ti beth sy'n digwydd pan fydd **arolygydd** yn ymweld â'th gartref. Dylai'r **arolygydd** ddod â chopi o'r daflen hon gydag ef.

Pan fydd yr **arolygydd** yn ymweld â'th gartref neu wasanaeth, bydd yn gwirio:



- A yw'r bobl yn iach ac yn hapus?



- A yw'r gofal a'r cymorth yn dda?



- A yw'r bobl sy'n rheoli'r gwasanaeth yn gwneud gwaith da?



Bydd yr **arolygydd** yn gwranddo arnat ti a phobl eraill sy'n byw yn y cartref neu'n defnyddio'r gwasanaeth.



Os hoffet ti siarad â'r **arolygydd** pan fydd yn ymweld, cei di wneud hynny.



Gall yr **arolygydd** hefyd siarad ag aelodau o'r teulu, ffrindiau, neu **eiriolwr** os yw'n well gennyf.



Eiriolwr yw rhywun sy'n siarad ar ran rhywun arall.



Bydd yr **arolygydd** yn y cartref neu wasanaeth i wyllo beth sy'n digwydd.



Bydd yr **arolygydd** yn gwirio gwaith papur.



Bydd yr **arolygydd** yn gwirio bod y cartref neu'r gwasanaeth yn ddiogel ac yn addas.